

Safonau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn Achosion Gofal Clinigol

Mae gan yr Ombwdsmon y pŵer i osod ei safon ei hun i gefnogi penderfyniadau ynghylch a fu methiant gwasanaeth wrth arfer dyfarniad neu ymarfer clinigol yng Nghymru.

Pan fyddwn yn ystyried cwynion am ofal a thriniaeth glinigol, rydym yn ystyried a yw'r gofal a'r driniaeth glinigol wedi bod yn briodol. Ein nod yw sefydlu'r hyn a fyddai wedi bod yn ofal a thriniaeth briodol yn y sefyllfa y cwynwyd amdano, a phenderfynu a oedd y gofal, triniaeth neu'r penderfyniadau y cwynwyd amdanynt yn ddiffygiol o hynny.

Byddwn yn ceisio sefydlu'r hyn a gyfansoddwyd yn ofal a thriniaeth glinigol briodol ar ffeithiau'r achos trwy gyfeirio at ystod o ddeunyddiau, gan gynnwys safonau neu ganllawiau perthnasol, cyfrifon yr achwynydd, y clinigwr neu'r sefydliad sy'n derbyn y gŵyn, ac unrhyw gofnodion a gwybodaeth berthnasol eraill.

Mae'r safonau neu'r arweiniad perthnasol y gallwn eu hystyried mewn achosion iechyd yn cynnwys canllaw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a chanllaw a gefnogir gan NICE, llwybrau clinigol, Codau Ymarfer a chanllaw rheoleiddwyr proffesiynol, canllaw gan Golegau Brenhinol, protocolau neu bolisiâu cenedlaethol a lleol, Cyfarwyddebau Llywodraeth Cymru a chanllaw perthnasol eraill.

Wrth benderfynu a oedd safon neu ganllaw yn berthnasol yn y sefyllfa y cwynwyd amdano, byddwn yn ystyried ffactorau megis a oedd ar waith ar adeg y digwyddiadau y cwynwyd amdanynt ac a oedd yn gymwys i'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd gan y person ac i'r lleoliad ble gynhaliwyd y gofal a'r driniaeth.

Byddwn yn gofyn i'r clinigwr neu'r sefydliad y cwynwyd amdano i'n hysbysu o ba safonau neu ganllawiau y defnyddiwyd i seilio eu harferion, a oeddent wedi eu dilyn neu wedi gwyro oddi wrthynt yn y sefyllfa y cwynwyd amdano a pham. Os oes safon neu ganllaw perthnasol ac nad yw'n ymddengys bod y penderfyniadau, gweithredoedd a dyfarniadau clinigol wedi bod yn unol â hynny, byddwn yn ystyried pa dystiolaeth sydd ar gael i esbonio hyn. Byddwn yn dod i benderfyniad ynghylch a fu gofal neu driniaeth glinigol briodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried esboniadau'r rhai y cwynwyd amdanynt a'u cydbwysu yn erbyn safonau neu ganllaw perthnasol.

Hefyd, byddwn yn ystyried "Egwyddorion Gweinyddu Da a Chofnodion Da" i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r cyd-destun clinigol.